# Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

**SFM(3)-01-10 (p1):16 Mawrth 2010**

### Papur Tystiolaeth – Cyflawni Ymrwymiadau Cymru'n Un

Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am dystiolaeth ysgrifenedig o fy nghynlluniau ar gyfer parhau i weithredu Cytundeb Cymru'n Un.

Ers llunio'r cytundeb ym mis Mehefin 2007 mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud cynnydd rhagorol wrth gyflawni ei rhaglen. Mae cryn dipyn dros hanner ymrwymiadau Cymru'n Un wedi eu cyflawni eisoes. Mae ychydig llai na chwarter arall yn cynnwys gwaith sy'n mynd rhagddo eisoes, ac mae'r dyddiad targed ar gyfer cwblhau un o bob deg y tu hwnt i fis Mawrth 2010.

Yr wyf i, fel fy nghyd-Aelodau'n parhau'n ymrwymedig i ddal ati i weithredu Cytundeb Cymru'n Un. Yr wyf yn falch o'n cyflawniadau hyd yma. Mae'r rhain yn cynnwys:

diwygiadau radical mewn addysg, gyda chyflwyno'r Cyfnod Sylfaen a deddfwriaeth sy'n cynnwys yr hawl i addysg hyd at 18 oed;

dyletswydd ar asiantaethau cyhoeddus i wneud ac i ddangos eu cyfraniad tuag at ddileu tlodi plant, drwy'r Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru);

gweithredu ar swyddi; er bod y dirywiad economaidd yn golygu bod ein hamcanion o ran cyflogaeth yn fwy o her, yr ydym wedi gweithredu'n gyflym ac yn llwyddiannus i atal diswyddiadau a cholli sgiliau, ac ar yr un pryd yr ydym yn helpu pobl yn ôl i waith;

daeth Cymru'n Genedl Fasnach Deg gyntaf y byd;

sefydlu Comisiwn Cymru ar Newid yn yr Hinsawdd, sy'n cynghori ar weithredu i sicrhau gostyngiad o 3% y flwyddyn mewn allyriadau carbon;

ac wrth gwrs, comisiynu a chwblhau adroddiad Confensiwn Cymru Gyfan, a pharhad ein hymrwymiad i weithio tuag at refferendwm llwyddiannus ar bwerau sylfaenol i'r Cynulliad.

Mae diweddariad Rhagfyr 2009 o Gynllun Cyflenwi Cymru'n Un yn rhoi manylion am y cynnydd a wnaethpwyd ar bob un o ymrwymiadau Cymru'n Un. Yn hytrach nag ailadrodd yr wybodaeth honno, mae'r Atodiad amgaeedig yn rhoi gwybodaeth ychwanegol am ymrwymiadau unigol lle bu datblygiadau ers Rhagfyr, lle mae'r dyddiad targed i'w cwblhau yn agos; neu os oes manylion pellach ar gael am gynlluniau cyflawni'r dyfodol.

**Carwyn Jones AC**
**Prif Weinidog Cymru**

### ATODIAD A: DIWEDDARIAD / EDRYCH YMLAEN

#### Economi a Thrafnidiaeth

"Ymrwymiad 45 "– **Gweithredu strategaeth marchnad lafur gyda nod tymor hir o gyflogaeth lawn ar gyfradd o 80%** - Yn dilyn llwyddiant y rhaglenni ProAct a React cyflwynwyd y 'Cynnig Chwe Mis', sy'n darparu cymorth hunan gyflogaeth a busnes i unigolion sydd wedi bod yn ddi-waith ac yn hawlio Lwfans Ceiswyr Gwaith am 6 mis neu fwy. Bydd y cynllun yn cael ei ymestyn i gynnwys rhai sydd wedi bod yn ddi-waith am 3 mis erbyn diwedd Mawrth 2010. Hefyd, bydd y cyllid ychwanegol a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer Cronfa Swyddi'r Dyfodol yn cael ei roi ar waith.

"Ymrwymiadau 47 a 147" – **Parhau â'r prif raglenni adfywio ym Mlaenau'r Cymoedd a Môn a Menai / Cynlluniau sydd â'r nod o hybu datblygu economaidd ac adfywio** – mae Ardaloedd Adfywio Strategol wedi'u sefydlu ledled Cymru ac mae prosiectau a gymeradwywyd eisoes yn weithredol ac yn parhau. Bydd mwy o brosiectau'n cael eu rhoi ar waith a bydd datblygiad Ardal Adfywio Strategol Aberystwyth yn parhau.

"Ymrwymiad 49(i)" – **Cynorthwyo datblygiad fforwm gweithgynhyrchu** – rhagwelir y bydd y gwaith o lunio'r strategaeth gweithgynhyrchu, sy'n cael ei datblygu gan Fforwm Gweithgynhyrchu Cymru, wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2010, er mwyn cael ei ystyried a'i gymeradwyo gan yr holl bartneriaid.

Mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi gofyn i'r Fforwm, wrth iddo adolygu ei strategaeth ddrafft gyntaf, a baratowyd yn 2008, ystyried effaith y dirwasgiad economaidd a'r heriau newydd sy'n bodoli wrth i'r DU ddechrau gweld diwedd ar y dirywiad.

"Ymrwymiad 52" – **Edrych ar opsiynau ar gyfer cytundeb buddsoddiad sector cyhoeddus ag EIB** – Bydd y prosiectau JEREMIE a JESSICA yn parhau i ddatblygu ac yn darparu cyllid ar gyfer buddsoddi mewn busnesau bach a chanolig a datblygu trefol. Yn dilyn y cytundeb JEREMIE a sicrhaodd gronfa fuddsoddi gwerth £150m i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru, mae disgwyl i Gronfa Datblygu Trefol JESSICA ddarparu cronfa o £100m i gynorthwyo prosiectau datblygu trefol.

"Ymrwymiad 55 " - Cafodd y **Gronfa Fuddsoddi Sengl ar gyfer cymorth busnes**, sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer cynlluniau menter ac amgylcheddol, ei lansio ym mis Ebrill 2008 ac mae wedi cael ei hymestyn i gynnwys prosiectau ychwanegol ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo gan WEFO. Bydd gwaith yn parhau i sicrhau bod prosiectau pellach yn cael eu cymeradwyo i gynnwys prosiectau ychwanegol.

"Ymrwymiad 62" – **Creu a datblygu cysylltiadau rhwng addysg ac entrepreneuriaeth** – Cytunir ar gyflawni Cynllun Gweithredu Strategaeth Menter Ieuenctid yn ystod y flwyddyn nesaf.

"Ymrwymiadau 87/88/94" – Y **Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol (CTC)** yw cynllun pum mlynedd y Llywodraeth, a fydd yn rhoi fframwaith a fydd yn sail i gyflawni holl ymrwymiadau trafnidiaeth Cymru'n Un. Mae'r cynllun uchelgeisiol a amlinellwyd yn y CTC yn canolbwyntio ar amrywiaeth eang o gynlluniau sy'n ein rhoi ar y trywydd i sicrhau system drafnidiaeth wedi'i datgarboneiddio, gan gynnwys gwelliannau i'r seilwaith, gwella'r gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus a mesurau sydd wedi'u cynllunio i sicrhau newid mewn ymddygiad. Mae rhai o'r cynlluniau'n cynnwys buddsoddi mewn trefi teithio cynaliadwy a chyfnewidfeydd aml-foddol, gwella cyfleoedd i gerdded a seiclo, integreiddio gwahanol foddau o deithio, a gwneud y gorau o'r rhwydweithiau ffordd presennol drwy ddefnyddio dulliau arloesol megis lonydd ar gyfer cerbydau â sawl teithiwr, cyfyngiadau cyflymder amrywiol a lonydd sy'n rhoi blaenoriaeth i drafnidiaeth gyhoeddus.

"Ymrwymiad 90/91/92/93" – Mae'r **Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol** yn cynnwys nifer sylweddol o gynlluniau ffordd ar hyd ein coridorau strategol yng Nghymru, ac yr ydym yn mynd y tu hwnt i'n hymrwymiad i ddarparu £50m i wella cysylltiadau ffordd rhwng y Gogledd, y Gorllewin a'r De. Dechreuodd y gwaith ar ffordd osgoi Porthmadog yn ddiweddar ac mae nifer o gynlluniau ar waith a fydd yn arwain at gwtogi'n sylweddol ar yr amser a gymer i deithio rhwng y de a'r gogledd.

"Ymrwymiadau 96/98/100" – Yr ydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran cyflawni ymrwymiadau Cymru'n Un ar gyfer y rheilffyrdd drwy gyflwyno **trenau a gwasanaethau** newydd, megis agor Lein Glynebwy, gwasanaethau ychwanegol ar Lein Merthyr, a lansio'r Gerallt Gymro. Mae nifer o gynlluniau wedi'u hamlinellu yn y CTC, megis gwelliannau i'r seilwaith i roi sylw i fannau cyfyng rhwng Wrecsam a Chaer ac ar hyd lein Calon Cymru, a fydd yn ein galluogi i gynyddu amledd a chyflymder gwasanaethau. Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â Llywodraeth y DU, Network Rail, cwmnïau gweithredu trenau ac eraill i gyflawni gwelliannau i'r system reilffordd yng Nghymru. Er enghraifft, yr ydym yn darparu £1 miliwn y flwyddyn am y tair blynedd nesaf ar gyfer y Rhaglen Genedlaethol i Wella Gorsafoedd i sicrhau gwell cyfleusterau, a fydd yn gymorth i gyflawni'n hymrwymiad i wella diogelwch ac ansawdd gorsafoedd a phlatfformau.

"Ymrwymiadau 224/227" – **Gweithio i sicrhau bod Cymru'n datblygu'n genedl fasnachu gref ac yn bartner gwerthfawr mewn cysylltiadau rhyngwladol / Ymgysylltu â buddiannau Cymreig dramor –** Bydd Rhwydwaith Menter Ewrop yng Nghymru yn parhau i gynnig cyngor a chymorth i fusnesau i hybu cydweithrediad ar draws Ewrop.

Ni fydd blaenoriaethau Busnes Rhyngwladol Cymru ar gyfer 2010/11 yn newid; bydd yn parhau i ddenu buddsoddiad tramor uniongyrchol – swyddi gwerth uchel i Gymru "a "datblygu gallu rhyngwladol busnesau Cymreig.

## Cyllid

"Ymrwymiad 2"  - Mae **Comisiwn Holtham ar ariannu a chyllid** yn cadw at ei amserlen i gyflwyno'i adroddiad terfynol. Yn ddiweddar cwblhaodd rownd arall o seminarau ledled Cymru i ysgogi trafodaeth ar ei waith.

"Ymrwymiad 54" – Yr ydym yn parhau i chwilio am ffyrdd o wella **trefniadau caffael y sector cyhoeddus** i sicrhau'r buddiannau mwyaf posibl am yr arian a werir gennym. Yr ydym yn gweithio i safoni a symleiddio'r broses cyn cymhwyso ar gyfer tendro ac mae gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu Cronfa Ddata o Gymhwysedd Cyflenwyr. Bydd y dull newydd hwn o weithio'n gwella effeithlonrwydd ac yn arwain at fwy o gystadleuaeth ac yn lleihau'r baich biwrocrataidd ar fusnesau bach a chanolig.

Mae'r cynnydd sy'n cael ei wneud yn edrych yn galonogol gyda'r wybodaeth ddiweddaraf yn dangos bod dros 50% o fusnes y sector cyhoeddus yn cael ei ennill gan gwmnïau o Gymru (mae'r ffigur wedi codi o 35%) ac yn achos busnes Llywodraeth Leol, mae 56% yn cael ei ennill gan gwmnïau Cymreig. Mae'n galonogol hefyd bod dros 43,000 o gyflenwyr (ac mae dros eu hanner wedi'i lleoli yng Nghymru) wedi'u cofrestru ar y porth caffael cenedlaethol ar y we gyda dros £10bn o gyfleoedd yn cael eu hysbysebu.

"Ymrwymiad 64" – Mae dull i **ddarparu hyfforddiant ar gyfer pobl ddi-waith o gaffael sector cyhoeddus** wedi cael ei ddatblygu gyda'n partneriaid o'r sector cyhoeddus**.** Cyn hir byddwn yn cyhoeddi astudiaethau achos ac enghreifftiau sy'n dangos sut y gellir hybu 'buddiannau cymunedol' yn gyfreithlon o fewn y fframwaith polisi a chyfreithiol sy'n llywodraethu caffael sector cyhoeddus.

Ar ôl cynnal cynllun peilot llwyddiannus, mae oddeutu 20 prosiect yn awr yn cael eu datblygu. Mae hyn yn cynnwys Ffordd Osgoi Gartholwg, lle mae 60 o bobl economaidd anweithgar (gan gynnwys troseddwyr mynych) eisoes wedi cael eu recriwtio a'u hyfforddi hyd at o leiaf lefel 2 NVQ; mae busnes arlwyo newydd wedi cael ei sefydlu; ac mae 80% o'r is-gontractau wedi cael eu hennill gan gyflenwyr lleol.

## Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

"Ymrwymiad 13" – Y camau nesaf yn ein **proses o ddiddymu'r farchnad fewnol** fydd:

Sefydlu 6 Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) newydd (i gymryd lle'r 17 presennol) yn ychwanegol at y 2 CIC presennol ym Mhowys. Daw Rheoliadau a Gorchymyn a gyflwynwyd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol i rym ar 1 Ebrill 2010;

Daw Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (y Cyd-bwyllgor sy'n cynnwys Prif Weithredwr pob Bwrdd Iechyd Lleol ac aelodau annibynnol) yn weithredol ar 1 Ebrill 2010;

Fframwaith Strategol Gwasanaeth, Gweithlu ac Ariannol 5 Mlynedd - cynllun gweithredu i greu systemau iechyd a gofal cymdeithasol integredig o safon ryngwladol sy'n rhoi pwyslais cryf ar gydweithrediad ar draws gwasanaethau cyhoeddus, o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

"Ymrwymiad 14" – Gyda gostyngiad o 12% yn y chwarter a ddaeth i ben fis Medi 2009 yn nifer y cleifion preifat sy'n defnyddio cyfleusterau cleifion preswyl y GIG; gostyngiad o 20% yn nifer y cleifion preifat sy'n defnyddio cyfleusterau achosion dydd y GIG; gostyngiad o 8% yn nifer y cleifion preifat sy'n defnyddio cyfleusterau cleifion dydd y GIG; a gostyngiad o 11% yn y defnydd o Ail Gynnig (ar ddiwedd Tachwedd 2009), yr ydym ar y ffordd **i roi diwedd ar y defnydd o ysbytai sector preifat yn GIG Cymru** erbyn Rhagfyr 2011

"Ymrwymiad 18" – Cafodd swydd Cyfarwyddwr y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd ei hysbysebu fis Chwefror, a bydd penodiadau'n cael ei wneud cyn gynted â phosibl.

"Ymrwymiad 19" – Bydd gan bob ysgol uwchradd **nyrs** benodedig, gyda man lle gall weithio yn yr ysgol, erbyn diwedd tymor y Cynulliad.

"Ymrwymiadau 21 a 30" – Datblygu a gostwng amseroedd aros am **ofal lliniarol.** Mae dau safle peilot ar gyfer mynediad un-stop wedi'u canfod:

Ysbyty Brenhinol Caerdydd – lle disgwylir i'r gwaith galluogi sydd wedi costio £3.32m ac a ddechreuodd fis Gorffennaf 2009 gael ei gwblhau fis Mawrth 2010;

Parc Iechyd Merthyr – lle derbyniwyd Achos Busnes Amlinellol gan BILl Cwm Taf.

"Ymrwymiadau 22" "a 23" – Yr ydym wedi sicrhau **cymhwysedd deddfwriaethol** o ran asesiadau, triniaethau ac eiriolaeth mewn iechyd meddwl, a fydd yn ein galluogi i roi **blaenoriaeth newydd i iechyd meddwl, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl i blant a'r glasoed.** Derbyniodd y LCO Gydsyniad Brenhinol ar 10 Chwefror, a disgwylir y bydd Mesur Cynulliad ar gyfer Iechyd Meddwl yn cael ei gyflwyno fis Mawrth 2010. Yr ydym yn datblygu Cynlluniau Gweithredu ar gyfer Dementia, a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Diogel. Mae cynlluniau cyfalaf i foderneiddio gwasanaethau iechyd meddwl ar waith yng Nghaerdydd a'r Fro, Wrecsam Maelor, Abertawe a Bryn y Neuadd. Disgwylir i'r Uned Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a'r Glasoed newydd gwerth £26m yn Ysbyty Tywysoges Cymru, Pen-y-bont ar Ogwr, gyda 14 gwely triniaeth a 5 gwely argyfwng a dibyniaeth uchel, agor ddiwedd 2010.

"Ymrwymiad 24" – Fel rhan o'n gwaith i **wella'r ddarpariaeth ar gyfer cyflyrau tymor hir megis strôc a diabetes,** mae Cynllun Strôc wedi'i gyhoeddi, sy'n cyfarwyddo ac yn arwain gweithgarwch ar lefel genedlaethol a lleol, a bydd Byrddau Iechyd Lleol yn cyflwyno Cynlluniau Strôc lleol yng Ngwanwyn 2010 a fydd yn dangos sut y byddant yn cydymffurfio'n llawn â'r holl safonau cenedlaethol ar gyfer strôc.

"Ymrwymiad 26 "– Yr ydym wedi addunedu i fuddsoddi **£190m mewn iechyd y cyhoedd a gwella iechyd**. Mae dros £280 miliwn ar gael ar gyfer y blynyddoedd 2008-09 hyd 2011-12 ac mae'n cynnwys amryw o raglenni sydd â'r nod o wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau. Byddwn yn lansio Cynllun Gweithredu Iechyd a Lles Rhywiol yng Ngwanwyn 2010 ac yn datblygu strategaeth rheoli tybaco erbyn Hydref 2010.

"Ymrwymiad 30" – Erbyn diwedd Rhagfyr, yr oeddem wedi llwyddo i gyrraedd y targed i **leihau amseroedd aros i 26 wythnos rhwng yr atgyfeiriad a'r driniaeth, gan gynnwys therapïau a phrofion diagnostig.** Rhoddir pwyslais yn awr ar gynnal hyn.

"Ymrwymiad 37" – Fel rhan o'n gwaith i **wella bwyd a maeth mewn ysbytai**:

bydd digwyddiadau hyfforddi i hybu'r ymgyrch "maeth mewn ysbytai" yn cael eu cyflwyno mewn ysbytai cymunedol a gwasanaethau nyrsio cymunedol erbyn diwedd Gwanwyn 2010;

byddwn yn datblygu Llwybr Gofal Maeth ar gyfer canolfannau cymunedol erbyn Haf 2010;

byddwn yn gweithredu ar ganfyddiadau'r adolygiad o Werthu sy'n Hybu Iechyd mewn Ysbytai erbyn diwedd 2010;

byddwn yn gwella ansawdd bwyd mewn canolfannau adwerthu a bwytai staff ac ymwelwyr erbyn mis Mawrth 2011.

"Ymrwymiad 42" – Cafwyd dadl ar ein deddfwriaeth ar hawliau gofalwyr, Mesur Strategaethau Gofalwyr (Cymru), yng Nghyfarfod Llawn y Cynulliad ar 26 Ionawr 2010, a bu'r Pwyllgor Deddfau'n craffu arno ar 10 Chwefror 2010. Mae sesiynau Pwyllgor Cam 1 pellach wedi'u trefnu drwy gydol mis Mawrth 2010;

**APADGOS**

**Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**

"Ymrwymiad 45" **- Gweithredu strategaeth marchnad lafur -** Datblygwyd Fframwaith Marchnad Lafur mewn cydweithrediad â'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'r cydgynllun gweithredol cyntaf yn cael ei ddatblygu ar gyfer 2010-11 i wella gweithredu a symleiddio gwasanaethau cyflogaeth a sgiliau i gael pobl yn ôl i waith. Mae Mesurau wedi'u cymryd hefyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn ystod y dirwasgiad i amddiffyn swyddi a phrentisiaethau, i gynorthwyo pobl ifanc i aros / dychwelyd i addysg hyfforddiant ac i gynorthwyo'r sawl sy'n ddi-waith i fanteisio ar hyfforddiant a chyngor gyrfaol.

"Ymrwymiad 65" – Mae dysgu Undebau Llafur wedi'i gryfhau yn sgil cytundeb tair blynedd newydd â TUC Cymru i ddatblygu a darparu gwasanaethau gan gynrychiolwyr dysgu undebau. Mae cyllideb **Cronfa Ddysgu Undebau Cymru** wedi'i chynyddu i £1.5m yn 2010-11; cafwyd cytundeb ar y gyfran nesaf o brosiectau 3 blynedd yn unol ag argymhelliad Estyn.

"Ymrwymiad 102, 103" – Mae'r ymgynghoriad ar y **Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg** a chynllun gweithredu drafft wedi'u

cwblhau ac mae'r ymatebion wedi'u gwerthuso. Yn dilyn trafodaeth yn y Cabinet ym mis Mawrth, rhagwelir y bydd y strategaeth yn ei ffurf derfynol yn cael ei chyhoeddi fis Ebrill eleni.

"Ymrwymiad 128" – Mae gennym fwy o **Brentisiaethau Modern** y pen yng Nghymru nag yn Lloegr. Mae'r cyfraddau cwblhau'n parhau i wella, gan ragori ar darged Llywodraeth y Cynulliad.

"Ymrwymiad 129" – Mae datblygiad gweithlu sy'n meddu ar sgiliau uwch yn cael ei gyflawni drwy 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru', strategaeth a chynllun gweithredu cyflogaeth a sgiliau, a fu'n ystyried **argymhellion Webb.** Cytunwyd ar gyllid ychwanegol yn gysylltiedig â'r Uwchgynadleddau Economaidd i amddiffyn a gwella sylfaen sgiliau Cymru, megis ProAct. Yr oedd y strategaeth yn cynnwys datblygu'r fframwaith Trawsnewid, ac mae newidiadau sylweddol i rwydweithiau darparwyr ôl-16 oed yn digwydd yn ei sgil, gan gynnwys datblygu canolfannau trydyddol ac uno chwe sefydliad Addysg Bellach.

"Ymrwymiad 130, 133" **– Gweithio i ehangu cyfranogiad mewn Addysg Bellach ac Uwch ymhlith pob oed –** Sefydlwyd y Brifysgol ym Mlaenau'r Cymoedd ac mae'r myfyrwyr cyntaf wedi cofrestru. Bydd Gweinidogion yn penderfynu cyn hir ar ffurf yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol a gaiff ei chyflwyno yn 2010-11.

### Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

"Ymrwymiad 148" – Lansiodd y Dirprwy Weinidog dros Adfywio **Gronfa Arallgyfeirio Swyddfeydd Post** newydd ar 18 Rhagfyr 2008 a chyhoeddodd y dyfarniadau cyntaf yng Ngorffennaf 2009. Dyfarnwyd grantiau gwerth cyfanswm o £1.146m i chwe deg tri o swyddfeydd post. Mae 75 swyddfa post arall wedi elwa ar grantiau gwerth £1.55 miliwn yn ail rownd y grantiau a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2009. Bydd y rownd nesaf yn cau fis Ebrill 2010.

"Ymrwymiad 159" - Gyda chymorth cyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Ewrop mae **undeb credyd** yn awr o fewn cyrraedd pawb yng Nghymru - a Chymru yw'r wlad gyntaf i gyflawni hyn. Mae'n bosibl yn awr i bawb sy'n byw neu'n gweithio yng Nghymru i fod yn aelod o undeb credyd. Gyda chymorth Llywodraeth y Cynulliad mae aelodaeth undebau credyd wedi codi o oddeutu 10,000 ar ddiwedd 2000 i bron i 47,000 erbyn mis Mawrth 2009. Yn ystod y cyfnod hwnnw mae asedau cyfunol undebau credyd Cymru wedi tyfu o £4.5 miliwn i dros £20 miliwn.

### Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad

"Ymrwymiad 3" – **Dechreuwyd ar y strategaeth i sicrhau gwelliant parhaus mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru gyda'r nod o ymgorffori hanfodion effeithlonrwydd a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd yng nghyd-destun Cynllun Gofodol Cymru** ym mis Rhagfyr 2007, pan gyhoeddwyd yr achos busnes ar gyfer y rhaglen cyfnewidcymru gyda'r nod o ddarparu cyfres o becynnau eGaffael i sicrhau bod pob sefydliad sector cyhoeddus yng Nghymru yn gallu canfod a phrynu nwyddau a gwasanaethau ar-lein. Mae wedi sicrhau arbedion gwerth dros £17 miliwn hyd yma.

Cyhoeddwyd manylion am Gronfa Buddsoddi i Arbed newydd gwerth £60 miliwn ym mis Mai 2009 sydd â'r nod o gynhyrchu arbedion effeithlonrwydd sylweddol a fydd yn rhyddhau arian. Ers hynny, mae 25 o brosiectau wedi derbyn cymorth gyda chyfanswm buddsoddiad sydd werth oddeutu £11.5 miliwn.

### Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

"Ymrwymiad 166" – Yr ydym wedi ymrwymo i gyrraedd y targed i leihau allyriadau carbon 3% y flwyddyn o 2011 ymlaen. Yr ydym wrthi'n cwblhau Rhaglen Weithredu a Strategaeth **Newid yn yr Hinsawdd** a fydd, erbyn Mawrth 2010, yn cynnwys mesurau pellach i gyrraedd y targed.

"Ymrwymiad 177" - Mewn polisi **ynni** byddwn cyn hir yn cyhoeddi Datganiad Ynni Carbon Isel Cymru. Mae effeithlonrwydd ynni'n elfen ganolog o'n strategaeth.

Yr ydym wedi ymgynghori ar y "Cynllun Cenedlaethol Effeithlonrwydd ac Arbed Ynni" ac ar gynigion ar gyfer "gweithredu newydd ar effeithlonrwydd ynni yn y cartref" i hybu effeithlonrwydd ynni ledled Cymru. Bydd y cynigion hyn yn cynnig 'symbyliad' effeithlonrwydd ynni sylweddol (o leiaf £350m dros 3 blynedd) i economi Cymru.

"Ymrwymiad 182" – Mae gennym gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer seilwaith **gwastraff** ac yr ydym yn cynorthwyo consortia gwastraff awdurdodau lleol mewn rhaglen gaffael Cymru gyfan. Bydd hyn yn ein galluogi i gyrraedd y targedau o 70% ar gyfer ailgylchu / compostio ac uchafswm o 30% o Ynni o Wastraff ("EfW") erbyn 2024/25. Dangosodd data drafft diweddar ar gyfer chwarter cyntaf 2009-10 bod y gyfradd ailgylchu ar gyfer Cymru gyfan yn 41.1% yn y chwarter hwnnw yn erbyn targed o 40% ar gyfer 2009-10. Bydd y strategaeth gwastraff derfynol yn cael ei chyhoeddi'n ddiweddarach eleni a bydd yn hybu buddsoddiad mewn technolegau gwastraff isel.

"Ymrwymiad 183" – Mae ein cynllun **Trefi Taclus** yn cyflawni ymrwymiad Cymru'n Un i gynorthwyo gweithredu gan awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol i wella ansawdd yr amgylchedd lleol. Mae'n gynllun sy'n werth £4 miliwn y flwyddyn rhwng Cadw Cymru'n Daclus a phob un o'r 22 awdurdod lleol. Erbyn diwedd Rhagfyr 2009, yr oedd Cadw Cymru'n Daclus (sy'n gyfrifol am yr elfen ymgysylltu â'r cyhoedd) wedi cynorthwyo 836 o grwpiau ledled Cymru a chynhaliwyd 7,362 o ymgyrchoedd glanhau.

"Ymrwymiad 66 (a 73/77/78/81)" – Yn ystod dwy flynedd gyntaf tymor y Cynulliad, darparwyd dros 3,300 o **dai fforddiadwy** ychwanegol yng Nghymru, ac yr ydym ar y ffordd i gyrraedd targed 2011 "Cymru'n Un "o 6,500 o dai fforddiadwy ychwanegol.

Yr ydym hefyd wedi llwyddo i gyflwyno cynllun achub morgeisi mewn ymateb i'r dirywiad economaidd, sydd wedi cynorthwyo 477 o oedolion a 253 o blant i aros yn eu cartrefi eu hunain.

Yr ydym wedi paratoi cyfarwyddyd ymarfer cynllunio ar ddarparu tai fforddiadwy drwy ddefnyddio Cytundebau Adran 106 a chanllawiau cynllunio atodol ar y defnydd o Adran 106 yn ystod y dirywiad economaidd ac yr ydym yn defnyddio'n tir ein hunain i helpu i hybu cyfleoedd i fuddsoddi mewn tai.

### Materion Gwledig

"Ymrwymiad 169 (iii)" – Mae'r Llywodraeth hefyd yn cyflawni ar yr ymrwymiad i gyflwyno cynllun i gynorthwyo **newydd ddyfodiaid ifanc i ffermio.** Yr ydym wedi cydweithio'n agos â rhanddeiliaid i gyflwyno cynllun grant newydd (sy'n defnyddio cymorth grant wedi'i dargedu'n ofalus o'r gyllideb flynyddol o £1.75 miliwn sydd newydd ei dyrannu) sydd â'r nod o fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb oed yn y sector amaeth. Drwy gyflwyno'r cynllun hwn yr ydym yn parhau â'n dull partneriaeth o weithio, gan weithio â Chlwb Ffermwyr Ifanc Cymru. Agorodd y cyfnod cyflwyno ceisiadau ar gyfer y Cynllun Cymorth i Newydd-ddyfodiaid (YESS) am y flwyddyn 2010/11 ar 4 Ionawr 2010 a daw i ben ar 31 Mawrth 2010.

"Ymrwymiad 170" – Cam penodol o fewn y Cynllun Gweithredu ar **Brynu Lleol** yw cynorthwyo datblygiad "Ffocysau Bwyd "a all ddod â nifer o gynhyrchwyr bwyd a diod lleol at ei gilydd i gyflenwi gweithgynhyrchwyr bwyd mwy.

"Ymrwymiad 173" – Ymrwymiad pwysig iawn arall sy'n rhan o Gymru'n Un, sydd â'r nod o gyflawni diwydiant ffermio cynaliadwy, yw 'gweithio'n galed i **ddileu TB** yng Nghymru' – gan gyfyngu lledaeniad y clefyd gan wartheg. Mae hyn yn cynnwys gwyliadwriaeth gryfach a mesurau rheoli i ganfod a dileu heintiadau'n gynharach. Cyhoeddodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig gamau penodol ar 13 Ionawr 2010 i reoli TB mewn bywyd gwyllt (moch daear) ac y byddai gofynion llymach ar geidwaid gwartheg yn cael eu gweithredu.

Yr ydym wedi gwella trefniadau gorfodi ac yr ydym yn trafod â'r diwydiant i wella arferion hwsmonaeth ar ffermydd. Yn benodol, yr ydym wedi penderfynu y byddwn yn rhoi cynnig ar gynllun peilot nas defnyddiwyd erioed o'r blaen yn y DU: sefydlu **Ardal Beilot Triniaeth Ddwys** yng Ngorllewin Cymru, lle bydd moch daear yn cael eu difa ochr yn ochr â mesurau llymach ar gyfer gwartheg.

"Ymrwymiad 174" – Mae'r **Adroddiad Ardaloedd Perfeddion Cefn Gwlad** yn waith ymchwil arloesol sydd wedi gwella'n dealltwriaeth o faterion sy'n effeithio ar yr ardaloedd hyn ac sydd wedi cynhyrchu tystiolaeth fesuradwy. Mae eisoes yn helpu i ffurfio ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i anghenion cymunedau anghysbell o ran trafnidiaeth a TGCh ac mae wedi arwain at y gwaith datblygu cyfredol ar brosiect ar y cyd â CLlLC ac awdurdodau lleol i edrych sut y mae gwasanaethau'n cael eu caffael a'u darparu mewn ardaloedd gwledig.

"Ymrwymiad 180" – Yr ydym hefyd wedi ymrwymo i hybu effeithlonrwydd ynni a **chynhyrchu ynni adnewyddadwy ar ffermydd.** Bydd Cynllun Glastir yn cynnwys mecanwaith grant cyfalaf penodol i gynnwys effeithlonrwydd ynni ar ffermydd, gan gynnwys cynlluniau micro i gynhyrchu ynni.

### Treftadaeth

"Ymrwymiad 60" - Mae Strategaeth Buddsoddi mewn **Twristiaeth** ar waith i gyfarwyddo cymorth ariannol uniongyrchol a gynigir drwy'r Gronfa Fuddsoddi Sengl. Ers i grantiau Adran 4 uno â'r Gronfa Fuddsoddi Sengl ym mis Ebrill 2008, mae cymorth gwerth £5.6 miliwn wedi'i gynnig i 66 o brosiectau twristiaeth, gyda rhagamcan o fuddsoddiad o gyfanswm o £41.75 miliwn. Hefyd mae tri o brosiectau UE Croeso Cymru wedi cael eu cymeradwyo - ar gyfer Twristiaeth Gynaliadwy, Twristiaeth Arfordirol a Marchnata Digidol - buddsoddiad o £52.4 miliwn dros bedair blynedd. Yn y maes datblygu sgiliau, mae rhaglen hyfforddi newydd 'Croeso Cynnes Cymraeg - A Warm Welsh Welcome - wedi cael ei lansio.

"Ymrwymiad 187" – Yr oedd nifer o ymrwymiadau yn amodol ar gymeradwyo Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol yr **Iaith Gymraeg** a gymeradwywyd ar 10 Chwefror 2010. Mae cymhwysedd deddfwriaethol yn awr wedi'i roi i'r Cynulliad Cenedlaethol a bydd Mesur yn ymwneud â'r Iaith Gymraeg yn cael ei gyflwyno cyn gynted â phosibl. Bydd y Mesur yn adeiladu ar lwyddiant Deddf Iaith Gymraeg 1993. Ein nod, wrth gyflwyno'r Mesur, fydd ffurfio strwythur a fydd yn rhoi cymorth deddfwriaethol i adfywio'r iaith.

"Ymrwymiad 201" – Mae Cymru'n Un hefyd yn cynnwys ymrwymiad i osod **dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i hyrwyddo diwylliant** ac annog gweithio mewn partneriaeth. Er mwyn ei weithredu bydd yn rhaid wrth broses deddfu dau gam i greu'r ddyletswydd statudol: Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol, y rhagwelir a fydd yn cael ei gymeradwyo ddiwedd Gwanwyn 2010 a Mesur Cynulliad. Yr ydym yn ymwybodol iawn o'r beichiau ychwanegol posibl ar awdurdodau lleol yn yr hinsawdd economaidd presennol a byddwn yn cynnal trafodaethau manwl ac ystyrlon â rhanddeiliaid allweddol i egluro sut y byddwn yn defnyddio'r pwerau newydd. Byddwn wedyn yn ymgynghori'n eang a gofalus ar y cynigion ar gyfer y ddyletswydd statudol a fydd yn deillio o'r trafodaethau hynny.

"Ymrwymiad 207" – Yr ydym hefyd wedi ymgymryd â rhaglen sylweddol i fuddsoddi ac i adnewyddu'r **rhwydwaith llyfrgelloedd cyhoeddus.** Mae £3 miliwn pellach wedi'i glustnodi ar gyfer 2010-11.

"Ymrwymiadau 209/210/211" – o ran **gweithgarwch corfforol,** ym mis Ionawr eleni lansiwyd "Creu Cymru Egnïol "gennym", "cynllun gweithredu gweithgarwch corfforol pum mlynedd (2010-15) newydd sydd â chysylltiad agos â'r strategaeth iechyd y cyhoedd. Yr ydym wedi cynyddu'n buddsoddiad mewn amrywiaeth o raglenni sydd â'r nod o hybu gweithgarwch corfforol ymhlith pobl ifanc, a chyrraedd ein targed tymor hir a fydd yn gweld plant yn ymgymryd ag o leiaf pum awr o weithgarwch corfforol bob wythnos. Hefyd bydd strategaeth ar gyfer perfformiad a rhagoriaeth mewn chwaraeon yn cael ei chyhoeddi yn 2010.

### Adran y Prif Weinidog

"Ymrwymiad 1" – Cyflwynodd **Confensiwn Cymru Gyfan** ei adroddiad ar amser fis Tachwedd 2009. Yn dilyn y penderfyniad unfryd ar 9

Chwefror 2010, yr ydym ar y ffordd i gyflawni'n hymrwymiad i symud ymlaen tuag at ganlyniad llwyddiannus mewn refferendwm ar bwerau deddfu llawn o dan Ran 4 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 cyn gynted ag y bydd yn ymarferol bosibl.

"Ymrwymiad 222" – Yn ystod ei ymweliad cyntaf â Brwsel yn ei swydd newydd, cyfarfu'r Prif Weinidog â'r Comisiynydd Hahn, a benodwyd yn ddiweddar fel y Comisiynydd dros Faterion Rhanbarthol, i drafod rhaglenni presennol y Gronfa Strwythurol yng Nghymru ac i edrych ar y paramedrau ar gyfer y ddadl sy'n amlygu'i hun ynghylch Cyllideb yr UE a ffurf bosibl y Polisi Cydlyniant ar ôl 2013.

Mae codi proffil a dylanwad Cymru yn swyddogaeth barhaus, ac mae hynny'n cynnwys meithrin a chymryd rhan mewn rhwydweithiau a chysylltiadau ar bob lefel o fewn y DU, Ewrop a thu hwnt, a chanfod a manteisio ar gyfleoedd hyrwyddo ar draws sectorau. Mae swyddogion Materion Cymreig wedi'u lleoli bellach mewn 3 gwlad blaenoriaeth sy'n ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau i godi proffil Cymru a chynorthwyo sefydliadau Cymreig yn y farchnad. Y diweddaraf o'r rhain yw India, gan adeiladu ar y profiad yn yr UDA a Tsieina.

Mae presenoldeb Cymru fel prif genedl yng Ngwyl Bywyd Gwerin y Smithsonian 2009 yn cael ei werthuso ac anogir manteisio ar gyfleoedd sydd wedi codi yn ei sgil.

Mae cyflwyniad ar-lein dynamig ar Gymru ar gael yn y wefan www.wales.com.